CRITICAL INCIDENT POLICY

At Wibli Wobli Nursery we understand we need to plan for all eventualities to ensure the health, safety and welfare of all the children we care for. With this in mind we have a critical incident policy in place to ensure our nursery is able to operate effectively in the case of a critical incident. These include:

- Flood
- Fire
- Burglary
- Abduction or threatened abduction of a child
- Bomb threat/terrorism attack
- National outbreaks of infection/health pandemics
- Any other incident that may affect the care of the children in the nursery.

If any of these incidents impact on the ability of the nursery to operate, we will contact parents at the earliest opportunity, e.g. before the start of the nursery day.

Flood

There is always a danger of flooding from adverse weather conditions or through the water/central heating systems. We cannot anticipate adverse weather, however, we can ensure that we take care of all our water and heating systems through regular maintenance and checks to reduce the option of flooding in this way. Our central heating systems are checked and serviced annually by a registered gas engineer and they conform to all appropriate guidelines and legislation.

If flooding occurs during the nursery day, the nursery manager will decide based on the severity and location of this flooding, and it may be deemed necessary to follow the fire evacuation procedure. In this instance children will be kept safe and parents will be notified in the same way as the fire procedure.

Should the nursery be assessed as unsafe through flooding, fire or any other incident we will follow our operational plan and provide options for childcare facilities in the local area.

Fire

Please refer to the fire safety policy.

Burglary

The management of the nursery follow a lock up procedure which ensures all doors and windows are closed and locked before vacating the premises. Alarm systems are used and in operation during all hours the nursery is closed.

The duty manager will always check the premises as they arrive in the morning. Should they discover that the nursery has been broken into they will follow the procedure below:

- Dial 999 with as many details as possible, i.e. name and location, details of what you have found and emphasise this is a nursery and children will be arriving soon
- Contain the area to ensure no-one enters until the police arrive. The staff will direct parents and children to a separate area as they arrive. If all areas have been disturbed staff will follow police advice, including following the relocation procedure under flood wherever necessary to ensure the safety of the children
- The manager on duty will help the police with enquiries, e.g. by identifying items missing, areas of entry etc.
- A duty manager will be available at all times during this time to speak to parents, reassure children and direct enquires
- Management will assess the situation following a theft and ensure parents are kept up to date with developments relating to the operation of the nursery.

Abduction or threatened abduction of a child

We have secure safety procedures in place to ensure children are safe while in our care, including safety from abduction. Staff must be vigilant at all times and report any persons lingering on nursery property immediately. All doors and gates to the nursery are locked and cannot be accessed unless staff members allow individuals in. Parents are reminded on a regular basis not to allow anyone into the building whether they are known to them or not. Visitors and general security are covered in more detail in the supervision of visitors' policy.

Children will only be released into the care of a designated adult; see the arrivals and departures policy for more details. Parents are requested to inform the nursery of any potential custody battles or family concerns as soon as they arise so the nursery is able to support the child. The nursery will not take sides in relation to any custody battle and will remain neutral for the child. If an absent parent arrives to collect their child, the nursery will not restrict access unless a court order is in place. Parents are requested to issue the nursery with a copy of these documents should they be in place. We will consult our solicitors with regards to any concerns over custody and relay any information back to the parties involved.

If a member of staff witnesses an actual or potential abduction from nursery we have the following procedure which are followed immediately:

- The police must be called immediately
- The staff member will notify management immediately and the manager will take control
- The parent(s) will be contacted
- All other children will be kept safe and secure and calmed down where necessary
- The police will be given as many details as possible including details of the child, description of the abductor, car registration number if used, time and direction of travel if seen and any family situations that may impact on this abduction.

Bomb threat/terrorism attack

If a bomb threat is received at the nursery, the person taking the call will record all details given over the phone as soon as possible and raise the alarm as soon as the phone call has ended. The management will

follow the fire evacuation procedure to ensure the safety of all on the premises and will provide as much detail to the emergency services as possible.

Other incidents
All incidents will be managed by the manager on duty and all staff will co-operate with any emergency services on the scene. Any other incident that requires evacuation will follow the fire plan. Other incidents e.g. no water supply will be dealt with on an individual basis taking into account the effect on the safety, health and welfare of the children and staff in the nursery.

If there is an incident outside of the nursery building and it is safer to stay inside the building will put into place the lockdown procedure. Emergency advice would be taken.

National outbreaks of infection/Health Pandemics
In the event of a national outbreak of a health pandemic we will follow the Government health advice and guidance, legal advice and advice from our insurance provider.

The setting will remain open as long as we have sufficient staff to care for the children. Depending on the nature of the pandemic we will follow all advice and implement measures to ensure that risks to vulnerable children and staff are minimised. This may include excluding infected children/staff/parents or family members from the setting for a set period of time to prevent the spread of infection. This decision will be done in consultation with parents, staff, legal advice and our insurance provider. Each case will be reviewed on an individual basis.

The nursery manager will notify CIW in the event of a critical incident.

After the event a post-incident evaluation will be conducted to ensure that each child and staff member was supported fully and the procedure went as planned.

This policy was adopted on	Signed on behalf of the nursery	Date for review
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*

POLISI DIGWYDDIADAU CRITIGOL

Ym Meithrinfa Wibli Wobli rydym yn deall bod angen i ni gynllunio ar gyfer pob posibilrwydd i sicrhau iechyd, diogelwch a lles yr holl blant rydym yn gofalu amdanynt. Gyda hyn mewn golwg mae gennym bolisi digwyddiadau argyfyngus ar waith i sicrhau bod ein meithrinfa'n gallu gweithredu'n effeithiol yn achos digwyddiad o'r fath. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llifogydd
- Tân
- Byrgleriaeth
- Cipio neu fygwth cipio plentyn
- Ymosodiad ar fygythiad bomiau / terfysgaeth
- Achosion cenedlaethol o haint/pandemigau iechyd
- Unrhyw ddigwyddiad arall a allai effeithio ar ofal y plant yn y feithrinfa.

Os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau hyn yn effeithio ar allu'r feithrinfa i weithredu, byddwn yn cysylltu â rhieni cyn gynted â phosibl, e.e. cyn dechrau'r diwrnod

Llifogydd
Mae perygl llifogydd bob amser o ganlyniad i dywydd garw neu drwy'r systemau dŵr / gwres canolog. Ni allwn ragweld tywydd garw, fodd bynnag, gallwn sicrhau ein bod yn gofalu am ein holl systemau dŵr a gwres trwy gynnal a chadw rheolaidd a gwiriadau i leihau'r risg o lifogydd fel hyn. Caiff ein systemau gwres canolog eu gwirio a'u gwasanaethu bob blwyddyn gan beiriannydd nwy cofrestredig ac maent yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau a deddfwriaeth briodol.

Os bydd llifogydd yn digwydd yn ystod y diwrnod, bydd rheolwr y feithrinfa yn gwneud penderfyniad ar sail difrifoldeb a lleoliad y llifogydd, ac efallai y bydd angen dilyn y drefn gwacáu tân. Yn yr achos hwn, bydd plant yn cael eu cadw'n ddiogel a hysbysir rhieni yn yr un modd â'r weithdrefn tân.

Os asesir bod y feithrinfa'n anniogel trwy lifogydd, tân neu unrhyw ddigwyddiad arall byddwn yn dilyn ein cynllun gweithredol ac yn darparu opsiynau ar gyfer cyfleusterau gofal plant yn yr ardal leol.

Tân
Cyfeiriwch at y polisi diogelwch tân.

Byrgleriaeth
Mae rheolaeth y feithrinfa yn dilyn gweithdrefn cloi sy'n sicrhau bod yr holl ddrysau a ffenestri wedi'u cau a'u cloi cyn gadael yr adeilad. Mae systemau larwm yn cael eu defnyddio ac yn weithredol yn ystod yr holl oriau mae'r feithrinfa ar gau.

Bydd y rheolwr ar ddyletswydd bob amser yn edrych ar y safle wrth iddo gyrraedd yn y bore. Os byddant yn darganfod bod rhywun wedi torri i mewn i'r feithrinfa, byddant yn dilyn y weithdrefn isod:

- Deialwch 999 gyda chymaint o fanylion â phosibl, ee enw a lleoliad, manylion yr hyn yr ydych wedi'i ddarganfod gan bwysleisio eich bod yn feithrinfa ac y bydd plant yn cyrraedd yn fuan
- Sicrhewch na fedr neb fynd i mewn i'r ardal nes i'r heddlu gyrraedd. Bydd y staff yn cyfeirio rhieni a phlant i ardal ar wahân wrth iddynt gyrraedd. Os aflonyddwyd ar bob ardal yn yr adeilad, bydd staff yn dilyn cyngor yr heddlu, gan gynnwys dilyn y drefn adleoli dan lifogydd lle bo angen er mwyn sicrhau diogelwch y plant
- Bydd y rheolwr ar ddyletswydd yn helpu'r heddlu gydag ymholiadau, e.e. trwy nodi eitemau sydd ar goll, ardaloedd mynediad ac ati
- Bydd rheolwr ar ddyletswydd ar gael bob amser yn ystod yr amser hwn i siarad â rhieni, tawelu meddwl plant a chyfeirio ymholiadau
- Bydd y rheolwyr yn asesu'r sefyllfa yn dilyn lladrad ac yn sicrhau bod rhieni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â gweithrediad y feithrinfa.

Cipio neu fygwth cipio plentyn

Mae gennym weithdrefnau diogelwch diogel ar waith i sicrhau bod plant yn ddiogel tra'u bod yn ein gofal, gan gynnwys diogelwch rhag cipio. Rhaid i staff fod yn wyliadwrus bob amser ac adrodd yn syth ar unrhyw berson sy'n loetran ar eiddo'r feithrinfa. Mae'r holl ddrysau a giatiau i'r feithrinfa wedi'u cloi ac ni ellir cael mynediad atynt oni bai bod aelodau staff yn caniatáu i unigolion ddod i mewn. Atgoffir rhieni yn rheolaidd i beidio â chaniatáu i unrhyw un ddod i mewn i'r adeilad p'un a ydynt yn hysbys iddynt ai peidio. Ymdrinnir yn fanylach ag ymwelwyr a diogelwch cyffredinol yn y polisi goruchwylio ymwelwyr.

Dim ond i ofal oedolyn dynodedig y bydd plant yn cael eu rhyddhau; gweler y polisi cyrraedd a gadael am fwy o fanylion. Gofynnir i rieni roi gwybod i'r feithrinfa am unrhyw anghydfod rhwng rhieni o ran gofal y plant, neu unrhyw broblem deuluol, cyn gynted ag y byddant yn codi, fel y gall y feithrinfa gefnogi'r plentyn. Ni fydd y feithrinfa yn cymryd ochrau mewn anghydfod dros ofal plentyn a bydd yn aros yn niwtral i'r plentyn. Os bydd rhiant absennol yn cyrraedd i gasglu ei blentyn, ni fydd y feithrinfa yn cyfyngu ar gysylltiad gyda'r plentyn oni bai bod gorchymyn llys yn ei le. Gofynnir i rieni roi copi o'r dogfennau hyn i'r feithrinfa pe byddent yn eu lle. Byddwn yn ymgynghori â'n cyfreithwyr ynghylch unrhyw bryderon ynghylch pwy sy'n cael gofalu ac yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth yn ôl i'r partïon dan sylw.

Os bydd aelod o staff yn dyst i ymdrech i gipio plentyn, neu yn dyst i blentyn yn cael eu cipio, mae gennym y weithdrefn ganlynol a ddilynir ar unwaith:

- Rhaid galw'r heddlu ar unwaith
- Bydd yr aelod staff yn hysbysu'r rheolwyr ar unwaith a bydd y rheolwr yn cymryd rheolaeth
- Cysylltir â'r rhiant / rhieni
- Bydd yr holl blant eraill yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu tawelu lle bo angen
- Bydd yr heddlu yn cael cymaint o fanylion â phosibl gan gynnwys manylion y plentyn, disgrifiad o'r person gymerodd y plentyn, rhif cofrestru car os yw'n cael ei ddefnyddio, yr amser a chyfeiriad y teithio os yw'n cael ei weld ac unrhyw sefyllfaoedd teuluol a allai effeithio ar y cipio hwn.

Ymosodiad bom / ymosodiad terfysgaeth

Os derbynnir gwybodaeth yn bygwth bod bom yn y feithrinfa, bydd y person sy'n cymryd yr alwad yn cofnodi'r holl fanylion a roddir dros y ffôn cyn gynted â phosibl ac yn codi'r larwm cyn gynted ag y bydd yr

alwad ffôn wedi dod i ben. Bydd y rheolwyr yn dilyn y weithdrefn gwacáu tân i sicrhau diogelwch pawb yn yr eiddo a bydd yn rhoi cymaint o fanylion â phosibl i'r gwasanaethau brys.

Digwyddiadau eraill
Bydd pob digwyddiad yn cael ei reoli gan y rheolwr ar ddyletswydd a bydd yr holl staff yn cydweithio ag unrhyw wasanaethau brys yn y fan a'r lle. Bydd unrhyw ddigwyddiad arall sydd angen gwacáu yn dilyn y cynllun tân. Bydd digwyddiadau eraill e.e. dim cyflenwad dŵr, yn cael ei drin ar sail unigol gan ystyried yr effaith ar ddiogelwch, iechyd a lles y plant a'r staff yn y feithrinfa.
Os oes digwyddiad y tu allan i adeilad y feithrinfa a'i bod yn fwy diogel aros y tu mewn i'r adeilad fe wnawn ni roi trefniadau cloi i lawr ar waith. Mi fyddwn yn cymryd cyngor brys.

Achosion cenedlaethol o haint/Pandemigau Iechyd
Pe digwydd achos cenedlaethol o bandemig iechyd byddwn yn dilyn cyngor a chanllaw iechyd y Llywodraeth, a chyngor a chyngor cyfreithiol gan ein darparwr yswiriant.

Bydd y lleoliad yn aros ar agor cyn belled â bod gennym NI Ddigon o staff i edrych ar ôl y plant. Yn ddibynnol ar natur y pandemig byddwn yn dilyn yr holl gyngor a rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod risgiau i blant a staff agored i niwed yn cael eu lleihau. Gall hyn gynnwys gwrthod mynediad i blant/staff/rhieni neu aelodau teulu sydd wedi eu heintio o'r lleoliad am gyfnod penodol o amser i atal yr haint rhag ymledu. Bydd y penderfyniad yma yn cael ei wneud wedi ymgynghori â rhieni, staff, cyngor cyfreithiol a'n darparwr yswiriant. Bydd pob achos yn cael ei adolygu ar sail unigol.

Bydd rheolwr y feithrinfa yn hysbysu AGC os bydd digwyddiad difrifol.

Ar ôl y digwyddiad cynhelir gwerthusiad ôl-ddigwyddiad i sicrhau bod pob plentyn ac aelod o staff yn cael ei gefnogi'n llawn a bod y weithdrefn wedi cael ei gweithredu.

Mabwysiadwyd y polisi hwn ar	Llofnodwyd ar ran y feithrinfa	Dyddiad adolygiad nesaf
27/10/2026	*L.George*	*10/2027*